

Mae Menter Môn yn darparu amrywiaeth o brosiectau CLYFAR a chysylltedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Rydym yn awyddus i gyflogi 2 swyddog i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiectau. Mae modd rhannu'r prosiectau i ddau gategori:

1. **Mynediad at Fand Eang:** Mae mynediad at fand eang cyflym iawn yn hanfodol er mwyn cael gafael ar wasanaethau, ac mae dyfodiad COVID 19 wedi amlygu ei bwysigrwydd wrth i fwy o bobl weithio gartref. Mae ymdrechion sylweddol wedi cael eu gwneud dros y blynyddoedd diwethaf i ddarparu band eang i gymunedau ac mae'r rhan fwyaf o gartrefi yng Ngwynedd ac Ynys Môn bellach yn cael cyflymderau digonol. Fodd bynnag, mae nifer fach o gymunedau ac eiddo unigol yn annhebygol o gael eu cysylltu oni bai fod cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu.

Gallai'r gefnogaeth hon gynnwys annog cymunedau i gyfuno 'talebau band eang' neu hyd yn oed gael gafael ar gyllid ar gyfer atebion band eang pwrpasol. Mae Menter Môn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru i chwilio am atebion a'u rhoi ar waith. Mae'r gwaith hwn yn golygu bod angen i ni weithio'n agos gyda gwahanol asiantaethau, yn ogystal â'r cymunedau eu hunain.

2. **Trefi CLYFAR:** Mae Menter Môn wedi bod yn treialu technoleg GLYFAR ers 5 mlynedd. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio amrywiaeth o synwryddion mewn gwahanol sectorau e.e. amaeth, gofal cymdeithasol a'r stryd fawr. Dros y 2 flynedd diwethaf rydym wedi gosod WiFi mewn 8 tref yng Ngwynedd ac rydym hefyd wedi datblygu Patrwm (<https://patrwm.io/>) sy'n monitro nifer yr ymwelwyr. Nod Trefi CLYFAR yw darparu data amser real er mwyn galluogi busnesau i wneud penderfyniadau gwybodus.

Mae Menter Môn yn dechrau ar brosiect i osod technoleg GLYFAR mewn trefi yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac mae wedi caffael cymorth arbenigol i osod y synwryddion a'r pyrth. Fodd bynnag, mae hefyd angen ymgysylltu â'r trefi, a'r gymuned fusnes yn enwedig, er mwyn sicrhau eu bod yn elwa o'r dechnoleg. Mae'r gweithgarwch yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cyd-fynd â'r prosiect Trefi CLYFAR Cymru gyfan y mae Menter Môn yn ei gyflawni ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddau weithgaredd a restrir uchod yn cynnwys mabwysiadu technoleg, ond rôl swyddogion y prosiect fydd ymgysylltu â'r gynulleidfa darged er mwyn cyfleu'r manteision sy'n gysylltiedig â'r dechnoleg honno. Mae Menter Môn yn caffael cefnogaeth arbenigol yn ôl yr angen e.e. gosod synwryddion IoT, felly nid oes angen i swyddogion y prosiect feddu ar wybodaeth dechnegol. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe bai ganddynt ddiddordeb gweithredol yn y ffordd y gellid defnyddio'r dechnoleg a'r math o atebion y gall eu darparu. Mae rhywfaint o ddolenni defnyddiol ar gael isod

Aberteifi (Tref GLYFAR) -

<https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/astudiaethau-achos/tref-yng-nghymru-yn-cael-ei-phweru-gan-ddadansoddeg>

Band eang drwy gloddio eich hun

<https://www.telegraph.co.uk/news/2018/06/27/villagers-wales-slow-internet-dig-trenches-install-superfast/>

Talebau Band Eang Cymunedol

<https://www.openreach.com/fibre-broadband/community-fibre-partnerships/connect-my-community>